
OPEN WATER




# AD-DALIAD DŴR WYNEB

2025/26

dwrcymru.com

PAB 0173 OW

# BETH YW DŴR WYNEB?

**Dŵr wyneb yw dŵr glaw sy'n syrthio ar eiddo ac yn rhedeg o bibellau glaw, tramwyfeydd neu lwybrau mewn i ddraen neu rigol ffordd i garthffos gyhoeddus. Mae taliadau carthffosiaeth y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn cynnwys y gost o waredu a thrin dŵr wyneb.**

Fodd bynnag, mae yna rai mathau o eiddo lle nad yw'r dŵr wyneb yn draenio i un o'n carthffosydd. Er enghraifft, gall dŵr glaw ddraenio i ffos gerrig pwrpasol, neu i nant, afon neu gwrs dŵr drwy garthffos breifat. Os yw hyn yn berthnasol i'ch eiddo chi, efallai y gallech wneud cais am ostyngiad ar eich taliadau. Rydym yn galw hyn yn **ad-daliad dŵr wyneb**.

Gwyddom fod cwmnïau ar gael a fydd yn cysylltu â chi gan honni eu bod yn gallu lleihau eich bil dŵr. Mae'r cwmnïau hyn fel arfer yn codi ffi i weld a yw arbedion yn bosibl, neu yn cadw rhan o unrhyw arbedion a nodwyd. Cofiwch: nid oes angen talu trydydd parti am rywbeth y gallwch ei wneud yn uniongyrchol gyda ni am ddim.

# Dyma rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir gan ein cwsmeriaid:

## BETH YW AD-DALIAD DŴR WYNEB?

Mae bron pawb sydd wedi cysylltu â'n rhwydwaith o garthffosydd yn cyfrannu at y gost gyffredinol o ofalu am ddŵr glaw neu ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n system.

Ond os yw dŵr wyneb eich eiddo yn mynd i rywle arall yn hytrach nag i mewn i'n carthffosydd, yna gallwch wneud cais i gael gostyngiad yn y swm a dalwch tuag at y gost hon.

## YDW I'N GYMWYS?

Er mwyn gwneud cais am y gostyngiad, mae'n rhaid eich bod wedi eich cysylltu â'n carthffos gyhoeddus ac yn talu taliadau carthffosiaeth. Nodwch, nid yw casglu dŵr wyneb sy'n draenio o do i mewn i gasgen ddŵr yn golygu eich bod yn gymwys i gael gostyngiad, gan nad yw'n strwythur parhaus.

## RWY'N CASGLU DŴR GLAW. A OES GEN I HAWL I AD-DALIAD?

Os yw'r dŵr glaw rydych yn ei gasglu yn mynd i'n carthffosydd yna ni fydd gennych hawl i ad-daliad. Yn nodweddiadol system lle y caiff dŵr glaw ei ddal i'w ddefnyddio i fflysio'r toiled sydd wedyn yn mynd i'n carthffosydd fydd hyn.

## FAINT YW'R AD-DALIAD AR GYFER Y CYFNOD RHWNG MIS EBRILL 2025 A MIS MAWRTH 2026?

Mae'n amrywio:

**Cartrefi**

- gyda mesurydd dŵr byddwch yn talu Tâl Gwasanaeth (tâl sefydlog) llai sef £97.53
- os cewch eich bilio gan ddefnyddio'r tâl eiddo anfesuredig safonol, y gostyngiad yw £62.42
- gyda bil y Tâl Mesuredig ar sail Asesiad, cewch ostyngiad o £42.30
- os cewch eich bilio gan ddefnyddio HelpU, WaterSure neu Cymorth Dŵr Cymru ni welwch ostyngiad, am nad yw dŵr wyneb wedi'i gynnwys yn eich bil tra byddwch ar y tariff hwn

**Cwsmeriaid Dibreswyl neu Fusnes**

- gyda'r mesurydd dŵr lleiaf, byddwch chi'n talu Tâl Gwasanaeth gostyngedig, sef £72.41
- gyda'r mesurydd dŵr mwyaf, mae'r Tâl Gwasanaeth yn amrywio, ond cewch ostyngiad o £120.41
- wedi bilio'r tâl eiddo anfesuredig safonol, y gostyngiad yw £121.20
- gyda bil y Tâl Mesuredig ar sail Asesiad, cewch ostyngiad o £72.41.

## PA MOR BELL YN ÔL Y GALLAF HAWLIO?

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yr ad-daliad yn gymwys o 1 Ebrill 2020 neu o'r dyddiad y gwnaethom ddechrau eich bilio os bydd yn hwyrach na 2020.

Ni fyddwn yn ôl-ddyddio'r ad-daliad cyn mis Ebrill 2020. Bydd yn gymwys i bob taliad yn y dyfodol oni fydd y trefniadau draenio yn newid neu os byddwn yn mabwysiadu carthffos dŵr wyneb a oedd unwaith yn breifat.

Bydd gwerth eich ad-daliad yn unigryw; bydd yn dibynnu ar sut rydym wedi codi tâl arnoch a faint o dâl rydym wedi'i godi arnoch. Canllaw yw'r gwerthoedd a ddyfynnir o dan "Faint yw'r ad-daliad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025".

## PAM NAD YW'R AD-DALIAD YN GYMWYS YMHELLACH YN ÔL NA MIS EBRILL 2020?

Mae'n costio llawer o arian i gadw ein hamgylchedd prydferth yn lân ac yn ddiogel. Rydym yn gwmni di-elw. Mae hyn yn golygu nad oes gennym gyfranddalwyr, felly gallwn fuddsoddi pob ceiniog yn ôl i wella ein systemau dŵr a charthffosiaeth, sy'n newyddion da i'n cwsmeriaid i gyd, ac i'n hamgylchedd. Drwy wneud yr ad-daliad yn gymwys o fis Ebrill 2020 yn unig, gallwn gadw biliau pawb i lawr. Rydym yn credu mai hon yw'r ffordd fwyaf teg o wneud pethau.

## BETH OS YDW I'N TALU TALIADAU CARTHFFOSIAETH I GWMNI DŴR A CHARTHFFOSIAETH ARALL?

Os ydych wedi eich cysylltu â'n rhwydwaith carthffosydd ond yn talu eich taliadau i Hafren Dyfrdwy, Severn Trent Water neu United Utilities North West, gallwch wneud cais am yr ad-daliad yn uniongyrchol i ni.

Os cewch fil gennym sy'n cynnwys tâl carthffosiaeth ar ran Hafren Dyfrdwy, bydd angen i chi gysylltu â nhw am yr ad-daliad oherwydd gall eu cynllun fod yn wahanol.

## RWY'N BYW MEWN FFLAT OND NID AR Y LLAWR UCHAF. ALLA I WNEUD CAIS AM AD-DALIAD?

Hyd yn oed os oes gan eich fflat ei chafnau a'i phibellau dŵr ei hun, os yw dŵr wyneb o'r adeilad cyfan yn draenio i'r garthffos gyhoeddus yna nid ydych yn gymwys i gael ad-daliad.

## MAE FY NGHYMYDOG WEDI CAEL GOSTYNGIAD. A FYDDAF YN GYMWYS I'W GAEL HEFYD?

Nid yn awtomatig. Nid oes gan eiddo a adeiladwyd ar yr un pryd drws nesaf i'w gilydd yr un systemau draenio o reidrwydd, felly mae pob cais yn unigol.

## PAM MAE FY NGHYMYDOG WEDI CAEL GOSTYNGIAD MWY NA MI?

Gweler "Pa mor bell yn ôl y gallaf hawlio?"

## MAE FY NŴR WYNEB YN DRAENIO I GARTHFFOS DŴR WYNEB DYNODEDIG YN Y FFORDD SY'N DRAENIO I GWRS DŴR, A FYDDAF YN CAEL AD-DALIAD?

Dim ond os bydd yr holl ddŵr wyneb yn mynd i mewn i'r garthffos honno a dim ond os nad ni sy'n berchen ar y garthffos honno. Os mai ni sydd berchen ar y garthffos, ni fydd ad-daliad.

## SUT GALLA I WNEUD CAIS?

I gartrefi ac eiddo dibreswyl neu fusnes llai o faint, gwnewch gais:

Ar-lein: **dwrcymru.com/dwrwyneb**

Ffoniwch ni ar: **0800 260 5051**
(8am-6pm Dydd Llun-Dydd Gwener)

Cwblhewch y ffurflen gais yn y llyfryn hwn sganio a'i hanfon ei dychwelyd drwy'r post i: Dŵr Cymru, Blwch Swyddfa'r Post 690, Caerdydd, CF3 5WL.

## EIDDO NEU DDATBLYGIADAU MASNACHOL MWY O FAINT

Gallech fod yn archfarchnad, ffatri neu ysgol, neu efallai'n gwmni rheoli sy'n gwneud cais ar gyfer sawl annedd ddomestig (e.e. bloc o fflatiau). Weithiau nid yw'r trefniadau draenio ar gyfer y safleoedd hyn yn hawdd i ni eu gwirio, felly a wnewch chi gwblhau'r ffurflen gais yn y llyfryn hwn a chynnwys cynllun draenio llawn o'r safle gan nodi lleoliad y tyllau archwilio, cyfeiriad llifoedd a lleoliad pwyntiau gollwng ar gyfer systemau dŵr budr a dŵr wyneb. Sganiwch y ffurflen a'i hanfon atom drwy e-bost neu ei dychwelyd drwy'r post i'r cyfeiriad uchod.

## BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

Unwaith y byddwn yn cael eich cais, byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi beth fydd yn digwydd nesaf. Mae'n debygol y bydd angen i ni ymweld â'ch eiddo i gadarnhau'r trefniadau draenio. Mae'n bwysig iawn eich bod yn parhau i dalu eich taliadau fel arfer tra y byddwn yn adolygu eich cais. Os na allwn dderbyn eich cais neu os nad ydych yn gymwys i gael yr ad-daliad byddwn yn esbonio pam.

# Cais am ad-daliad dŵr wyneb

Dŵr Cymru Welsh Water

**Rhif cyfeirnod y cwsmer** (mae hwn i'w weld ar eich bil): ..............................

**Eich enw:** ..............................

**Cyfeiriad yr eiddo rydych yn gwneud cais mewn perthynas ag ef:** ..............................

..............................

.............................. Cod post: ..............................

**Math o eiddo** (e.e. tŷ, fflat, siop, swyddfa): ..............................

**Eich cyfeiriad lle dylem ysgrifennu atoch** (os yw'n wahanol i'r uchod): ..............................

..............................

.............................. Cod post: ..............................

**Rhowch wybod i ni ble mae eich dŵr wyneb yn mynd drwy ddewis un o'r opsiynau canlynol:**

☐ Ffos gerrig

Dywedwch wrthym ble mae'r ffos gerrig: ..............................

Os ydych yn gwybod eich bod yn rhannu'r ffos gerrig â'ch cymdogion, dywedwch wrthym beth yw rhifau neu enwau'r tai os oes modd:

..............................

Neu:

☐ Cwrs dŵr (pwll, afon, nant neu'r môr), drwy garthffos breifat

Dywedwch wrthym ble mae'r cwrs dŵr a beth ydyw: ..............................

..............................

**Ble mae'r bibell sy'n cludo'r dŵr o'ch tŷ i'r cwrs dŵr?**

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**A yw'r bibell hon yn cael ei rhannu ag eiddo arall?** Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn siŵr ☐

Os ydy, darparwch rifau a/neu enwau'r tai: ..........................................................................................

Neu

☐ Arall

Disgrifiwch i ble mae'r dŵr wyneb yn mynd: ..........................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*Os yw'r dŵr wyneb yn mynd i gwrs dŵr drwy garthffos gyhoeddus, ni chewch ad-daliad. Dim ond os nad oes dŵr wyneb yn mynd i mewn i'n rhwydwaith o gwbl y cewch ad-daliad.

**Rwy'n cytuno:**

— Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad oes unrhyw ddŵr wyneb o'r eiddo yn draenio i garthffos gyhoeddus.
— Rwy'n deall y gall fod angen i Dŵr Cymru ymweld â'm heiddo i asesu'r trefniadau draenio.
— Byddaf yn rhoi gwybod i Dŵr Cymru am unrhyw newidiadau a all effeithio ar fy nghais yn y dyfodol.

Enw llawn: ..........................................................................................

Llofnod: .......................................................... Dyddiad: ..........................................................

Rhif ffôn: ..........................................................................................

Cyfeiriad e-bost: ..........................................................................................

**Anfonwch y ffurflen gais hon i:**

Dŵr Cymru, Blwch Swyddfa'r Post 690, Caerdydd, CF3 5WL

Ar gyfer adeiladau masnachol mwy o faint, cofiwch anfon eich lluniau/cynllun, fel y disgrifir ar dudalen 4, gyda'ch cais.

Os cewch unrhyw anawsterau wrth gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â ni drwy fynd i'n gwefan yn **dwrcymru.com** neu ffoniwch ni ar **0800 260 5051** a bydd un o'n cynghorwyr gwasanaeth cwsmeriaid yn gallu eich helpu.